# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Shan Mayor**

**Llanfyllin, Powys**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Llun, 8 Ebrill 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Shan Mayor yn warchodwr plant cofrestredig sy'n rhedeg ei gwasanaeth o fflat fawr ar y llawr cyntaf yng nghanol Llanfyllin, Powys. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio gyda thri chynorthwyydd, gydag un ohonynt wrthi'n cofrestru fel gwarchodwr plant. Nid oes mwy na thri oedolyn yn gweithio yn y gwasanaeth ar unrhyw un adeg. Mae Shan Mayor wedi'i chofrestru i ddarparu gofal ar gyfer hyd at ddeg plentyn o dan 12 oed wrth weithio ar ei phen ei hun, a hyd at ugain o blant o dan 12 oed wrth weithio gyda gwarchodwr plant arall. Gall y plant ddefnyddio'r tair ystafell chwarae, y gegin/ystafell fwyta a'r ystafell ymolchi. Roedd gardd gaeedig yng nghefn yr eiddo ar gael iddynt hefyd. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 7:00am a 7:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Saesneg yw prif iaith y gwasanaeth, a siaredir Cymraeg yn rheolaidd â'r plant. Ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth hwn yn gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'u ffrindiau. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda, yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ac yn ymateb i anghenion unigol yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel a chyfforddus i'r plant ag amrywiaeth eang o adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant a'u camau datblygu. Fodd bynnag, mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal ar adegau addas. Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol, yn meddu ar y cymwysterau addas ac yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol.

### 2. Gwelliannau

Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo gofrestru, ac felly ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi rhoi gwybod i'r gwarchodwr plant bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â pha mor aml y cynhelir ymarferion tân (rheoliad 38) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth y tro hwn gan nad oedd unrhyw effaith na risg sylweddol i blant. Rydym yn disgwyl i'r gwarchodwr plant gymryd camau i unioni hyn.

Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion o ran gweithdrefnau newid cewynnau, cofnodion damweiniau, a rhai agweddau ar gadw cofnodion.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant â'i gilydd. Gallant wneud dewisiadau a darperir cyfleoedd i'w hannog i fod yn annibynnol. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn chwilfrydig i archwilio eu hamgylchedd.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod pob ymdrech i gyfathrebu yn cael sylw ac mae'r staff yn ymateb iddynt yn brydlon.

Roedd y plant yn hyderus i fynegi eu dymuniadau a'u hanghenion i'r gwarchodwr plant, a rhoddwyd dewisiadau ar bob agwedd ar eu diwrnod. Roedd y plant yn rhydd i ddewis y pethau roeddent am chwarae â nhw, a gallant gael gafael ar y rhan fwyaf o adnoddau yn annibynnol. Cafodd dewisiadau ac anghenion unigol y plant eu parchu. Ar ôl amser byrbryd, dywedodd un plentyn ei fod yn flinedig ac aed ag ef i setlo ac ymlacio mewn ardal dawel ar unwaith. Roedd y plant yn ddigon hyderus i ofyn am weithgareddau a oedd allan o'u cyrraedd. Er enghraifft, dywedodd un plentyn ei fod am gael tegan o silff uwch drwy wneud ystumiau ato a pharablu'n hapus wrth edrych ar y gwarchodwr plant. Ymatebodd y gwarchodwr plant drwy roi'r tegan iddo'n brydlon. Roedd plentyn hŷn yn hyderus i ddweud wrth y gwarchodwr plant pa weithgaredd o'r llyfr gweithgareddau roedd am gymryd rhan ynddo nesaf. Parchodd y gwarchodwr plant ei ddewis a thrafododd gyda'r plentyn sut roedd am gwblhau'r gweithgaredd.

Mae'r plant yn hyderus i wneud dewisiadau, penderfyniadau a mynegi eu barn yn dda.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel am eu bod yn cael gofal parhaus gan warchodwr plant sy'n eu hadnabod yn dda.

Roedd y plant wedi setlo, yn gyfforddus ac yn ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'i gilydd a'r gwarchodwr plant, ac roeddent yn parablu ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus, gyda llawer o wenu a chwerthin. Roedd y plant bach yn hyderus i ddangos i ni pa deganau roeddent yn eu hoffi, ac roedd y plant hŷn yn hyderus i sôn wrthym am beth roeddent yn hoffi ei wneud a'u prosiectau sy'n mynd rhagddynt. Roedd y plant yn gwybod y gallent geisio cymorth gan y gwarchodwr plant pan roedd ei angen arnynt, ac y byddai eu hanghenion yn cael eu diwallu'n brydlon. Roedd un o'r plant bach wedi blino yn yr ystafell chwarae ac aeth yn syth at y gwarchodwr plant, a chafodd gysur ganddi ar unwaith drwy roi tawelwch meddwl iddo a'i gofleidio. Aeth y plentyn i gysgu'n gyflym ym mreichiau'r gwarchodwr plant, gan ddangos ei fod yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn ei gofal. Roedd y plant hefyd wedi meithrin cydberthnasau da

gyda chynorthwywyr y gwarchodwr plant, ac roeddent yn gyfforddus yn eu gofal. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn hapus yn galw ar un cynorthwyydd pan gyrhaeddodd, gan wenu mewn ymateb i'w gyfarchiad.

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, gan eu bod yn gwybod y byddant yn cael y cymorth a'r sicrwydd sydd eu hangen arnynt gan y gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyfoedion ac yn dechrau rhannu a chymryd eu tro yn briodol.

Roedd y plant yn cyd-chwarae'n hapus, gan rannu teganau a chymryd troeon. Er enghraifft, roedd dau blentyn bach yn chwarae gêm pi-po gyda'i gilydd drwy ddrws gweithgaredd rhyngweithiol, ac wedyn yn cymryd eu tro i basio'r bêl i'w gilydd drwy'r drws. Roedd y plant yn cydweithio'n dda ac yn barod i helpu â thasgau. Er enghraifft, pan ofynnwyd iddynt dacluso'r teganau cyn cinio, roedd y plant yn fodlon gwneud hynny.  Dywedodd plentyn hŷn wrthym ei fod wedi dod i fwynhau treulio amser gyda'r plant iau, ac yn ddiweddarach yn y prynhawn, roedd yn amlwg bod y babanod wedi meithrin cydberthnasau agos â'r plentyn hŷn, wrth iddynt fynd ato i gael cwtsh a phasio eu teganau ato'n frwd.

Mae'r plant wedi meithrin cyfeillgarwch â'u cyfoedion, ac maent yn cydweithio'n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn rhydd i archwilio'r amgylchedd, ac maent yn ymddiddori yn yr adnoddau a'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn frwd drostynt.

Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau ar gael, gan gynnwys amrywiaeth o deganau, deunyddiau crefft, gemau a dewis o lyfrau. Roedd y plant wrth eu bodd yn chwarae â'r adnoddau a oedd ar gael, ac roeddent yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn mwynhau archwilio'r byrddau synhwyraidd ac roeddent wrth eu bodd yn gollwng peli plastig i'r gwahanol bibelli. Roeddent yn chwerthin ac yn parablu'n frwd wrth i'r peli rowlio o'r pen arall, ac roeddent yn awyddus i ni a'r gwarchodwr plant gymryd rhan yn eu chwarae. Roedd plentyn bach arall yn mwynhau arbrofi â'r sialciau mawr ar y bwrdd du ar y wal. Roedd wrth ei fodd yn gwneud marciau â'r sialc ac yn frwdfrydig i ddangos ei ymdrechion i'r gwarchodwr plant drwy bwyntio a chwerthin, ac ymatebodd y gwarchodwr plant yn gynnes drwy ganmoliaeth ac anogaeth. Roedd cyfleoedd ar gael hefyd i ymlacio a chael amser tawelach. Er enghraifft, gallai'r plant ymlacio ar soffas cyfforddus a mwynhau cyfnodau tawelach yn edrych ar lyfrau, fel y dymunont.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn ymgysylltu â'u chwarae, ond maent yn cael cyfleoedd hefyd i fwynhau amser tawel.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael eu hannog i fod yn annibynnol, a rhoddir amser iddynt ddysgu sut i wneud pethau yn eu hamser eu hunain.

Gwelsom y plant yn arwain ac yn cyfarwyddo eu chwarae eu hunain, ac roeddent yn awyddus i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Cawsant eu cymell yn naturiol. Roeddent yn awyddus i wybod am eu hamgylchedd ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau a'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig. Roedd y plant yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd rhan mewn tasgau. Helpodd y plant iau i dacluso ar ddiwedd y gweithgareddau, ac roedd y plant hŷn yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain ynglŷn â sut i dreulio eu hamser. Rhoddwyd digon o amser a lle yn ystod y gweithgareddau hyn i sicrhau bod y plant yn gallu eu cwblhau mor annibynnol â phosib ac ar eu cyflymder eu hunain.

Mae'r plant yn hyderus ac yn llawn cymhelliant am eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda, ac yn ymateb yn gyflym i'w hanghenion a'u hymdrechion i gyfathrebu mewn ffordd gynnes a charedig. Caiff ffyrdd iach o fyw a hylendid da eu hyrwyddo, a rhoddir digon o gyfleoedd i ymarfer corff a chwarae yn yr awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn ofalus, er mwyn helpu'r plant i ffynnu datblygu a dysgu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu ffordd iach o fyw ac yn sicrhau bod y plant mor ddiogel ac mor iach â phosibl.

Yn ystod trafodaethau â'r gwarchodwr plant, roedd yn amlwg ei bod yn deall sut i amddiffyn y plant ac yn deall gweithdrefnau diogelu yn dda, yr oedd wedi cwblhau hyfforddiant arnynt. Roedd y cynorthwywyr gwarchod plant wedi cwblhau hyfforddiant ar weithdrefnau diogelu hefyd. Yn ogystal, roedd y gwarchodwr a phob cynorthwyydd plant wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, a oedd yn golygu eu bod yn gwybod sut i roi cymorth cyntaf sylfaenol mewn argyfwng. Roedd unrhyw ddamweiniau a ddigwyddodd yn cael eu cofnodi'n briodol yn llyfr damweiniau'r gwarchodwr plant. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y rhieni bob amser yn llofnodi'r cofnodion hyn i ddangos eu bod wedi cael gwybod am y ddamwain a'u bod yn hapus â'r camau a gymerwyd.

Roedd gan y plant eu poteli dŵr eu hunain a oedd ar gael iddynt drwy'r dydd. Roedd y gwarchodwr plant yn annog y plant i yfed er mwyn annog yfed digon o ddŵr. Roedd y gwarchodwr plant hefyd yn hyrwyddo hylendid da, drwy annog y plant a oedd yn gallu golchi eu dwylo i wneud hynny cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled. Gwelsom hefyd fod y gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau priodol wrth drin bwyd er mwyn atal y risg o groeshalogi. Gwnaethom drafod y weithdrefn newid cewynnau gyda'r gwarchodwr plant a gwelsom nad oedd hi'n defnyddio gorchudd papur ar y matiau newid i leihau'r risg o groeshalogi ymhellach, er bod y gweithdrefnau yn unol â'r arfer gorau presennol yn bennaf. Dywedodd y gwarchodwr plant y byddai'n prynu papur priodol ar unwaith er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd yn y dyfodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i wneud dewisiadau iach ac wedi rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau eu diogelwch.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn ei gofal, ac mae'n dangos ymddygiad da ac yn defnyddio iaith briodol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthynas agos â'r plant. Siaradodd mewn ffordd gyfeillgar a digynnwrf, gan ddangos cynhesrwydd ac agosatrwydd gwirioneddol. Roedd hyn

yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant ac yn datblygu eu hunan-barch. Roedd y polisi rheoli ymddygiad yn disgrifio sut yr ymdrinnir ag ymddygiad amhriodol mewn ffordd gadarnhaol. Roedd hyn hefyd yn cael ei ail-bwysleisio drwy ein harsylwadau. Cafodd y plant eu hatgoffa'n dawel pan oedd eu hymddygiad yn anaddas ac roedd y gwarchodwr plant yn modelu ymddygiad cadarnhaol, ac yn annog plant i ymgysylltu'n gadarnhaol wrth chwarae. Roedd y plant yn eu hailgyfeirio at weithgareddau eraill pan sylwodd y gwarchodwr fod y plant yn aflonyddu neu'n cynhyrfu. Roedd hwn yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol. Clywsom ddigon o ganmoliaeth yn cael ei rhoi drwy gydol y diwrnod am ymddygiad da, cwblhau gweithgareddau a rhoi cynnig ar bethau newydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi llesiant emosiynol y plant drwy ddefnyddio dulliau cadarnhaol i sicrhau bod y plant yn hapus ac wedi setlo.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd meithringar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant.

Cynlluniwyd y gweithgareddau'n ofalus er mwyn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a fyddai'n eu helpu i ffynnu a gwella eu dysgu. Roedd amrywiaeth o weithgareddau wedi'u gosod i'r plant symud yn ddirwystr rhyngddynt, ac roedd ystod dda o weithgareddau synhwyraidd, crefft, dan do ac awyr agored ar gael.  Roedd y gwarchodwr plant yn gyfarwydd â diddordebau pob plentyn a gallai awgrymu a datblygu gweithgareddau'n briodol. Er enghraifft, gwelsom fwrdd synhwyraidd roedd plentyn hŷn wedi'i greu gan ddefnyddio gwahanol gloeon a switshys. Roedd y gwarchodwr plant wedi gosod prosiect i'r plant hŷn i greu bwrdd synhwyraidd mewn ymateb i ddiddordeb plentyn iau mewn cloeon ac allweddi.

Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnodion manwl o'r plant drwy ddefnyddio ap arbenigol. Roedd arsylwadau a lluniau yn cael eu cofnodi bob dydd, yn mapio cynnydd y plant yn effeithiol, yn galluogi'r gwarchodwr plant i gynllunio cam dysgu nesaf pob plentyn ac i deilwra gweithgareddau yn benodol i sgiliau unigol y plant. Roedd y cofnodion hyn ar gael i'r rhieni ar unrhyw adeg drwy'r ap neu'r wefan, gyda manylion mewngofnodi unigol yn cael eu darparu a gallai'r rhieni hefyd nodi eu harsylwadau neu sylwadau eu hunain. Roedd hyn yn galluogi'r rhieni i fod yn rhan o ddysgu eu plentyn a chadw llygad agos ar ei gynnydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac mae'n cynllunio gweithgareddau'n ofalus yn ôl anghenion unigol a cham datblygu'r plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gofal mewn amgylchedd glân a chyfforddus. Mae'n sicrhau bod gan y plant fynediad i amrywiaeth o ardaloedd difyr dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac yn briodol i anghenion y plant. Nodir risgiau a rhoddir mesurau effeithiol ar waith i reoli neu ddileu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant. Fodd bynnag, mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau y caiff ymarferion tân cynnal yn rheolaidd.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel lle mae plant yn gallu chwarae ac archwilio ardaloedd gwahanol yn ddiogel.

Roedd y safle'n ddiogel; roedd ffens o amgylch yr ardaloedd awyr agored ac roedd y drws ffrynt wedi'i gloi er mwyn atal mynediad diawdurdod. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i gadw'r plant yn ddiogel mewn argyfwng. Er enghraifft, roedd cofnodion cywir o bresenoldeb dyddiol, sy'n golygu ei bod yn gwybod pwy oedd yn bresennol pe byddai angen gadael y safle'n gyflym. Roedd y gwarchodwr plant wedi nodi risgiau yn yr adeilad, ac roedd y rhain yn cael eu cynnwys mewn asesiadau risg ysgrifenedig, gan ddangos sut y cafodd y rhain eu rheoli, a lle y bo'n bosibl, eu dileu. Adolygwyd yr asesiadau risg hyn yn rheolaidd, gan sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

Roedd y weithdrefn gwagio adeg tân wedi'i harddangos ar y wal ym mhob ystafell chwarae, a dywedodd y gwarchodwr plant ei bod wedi trafod y rhain yn fanwl gyda phob cynorthwyydd y gwarchodwr plant er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn wrth wagio'r adeilad mewn argyfwng. Fodd bynnag, dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nad oedd wedi cynnal ymarfer tân eto, ond ei bod yn bwriadu gwneud hynny ar unwaith. Gwnaethom siarad â'r gwarchodwr plant ynglŷn â hyn a'i hatgoffa bod angen cynnal gweithdrefnau gwagio mewn argyfwng ar adegau addas.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle'n ddiogel, a bod risgiau'n cael eu monitro a'u rheoli'n briodol. Fodd bynnag, roedd angen ymarfer gweithdrefnau gwagio mewn argyfwng ar adegau addas.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd cartrefol ac sydd mewn cyflwr da.

Roedd yr eiddo wedi'i addurno'n dda, yn lân, yn olau ac yn groesawgar. Roedd dwy ystafell chware ar gael i'r plant a oedd yn caniatáu digon o le iddynt symud o amgylch a chwarae neu eistedd a gorffwys ar gelfi cyfforddus. Roedd y plant hefyd yn gallu eistedd ar gadeiriau ac wrth fyrddau o faint sy'n addas i blant yn yr ystafell fwyta i gwblhau gweithgareddau

crefft. Roedd bocsys a chypyrddau storio lefel isel yn galluogi'r plant i gael gafael ar rywfaint o deganau ac adnoddau yn annibynnol. Defnyddiwyd unedau'r cwpwrdd fel ardal archwilio synhwyraidd, ac roedd teganau a gweithgareddau gwahanol wedi'u cuddio y tu ôl i ddrysau'r cwpwrdd er mwyn i'r plant ddod o hyd iddynt pan fyddent yn eu hagor. Roedd ardal awyr agored diogel ar gael i'r plant lle gallent chwarae, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o deganau awyr agored, hambwrdd â gweithgaredd, a lle chwarae synhwyraidd a wnaed o bibellau a thiwbiau wedi'u hailgylchu.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu awyrgylch cartrefol ac yn sicrhau bod gan y plant fynediad i ardaloedd chwarae croesawgar a diddorol i hybu eu mwynhad.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gallu defnyddio ystod eang o ddeunyddiau addas sydd o ansawdd da i wella eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y teganau a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd amrywiaeth o deganau awyr agored ar gael yn yr ardal batio, gan gynnwys hambwrdd â gweithgaredd roedd y gwarchodwr plant yn ei ddefnyddio ar gyfer chwarae synhwyraidd, teganau reidio, ac ystod o ddeunyddiau naturiol a deunyddiau wedi'u hailgylchu i'r plant eu harchwilio. Roedd y teganau awyr agored yn cael eu storio'n briodol pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y teganau dan do a'r teganau awyr agored yn cael eu newid yn rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb y plant yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Roedd grisiau a sedd ar gyfer y toiled ar gael yn yr ystafell ymolchi i hybu annibyniaeth y plant. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y teganau'n cael eu glanhau'n rheolaidd â chlytiau neu chwistrell gwrthfacterol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar deganau a deunyddiau cyffrous sy'n ddiddorol iddynt, ac sy'n gwella eu chwarae a'u dysgu.

## 4. Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau. Mae'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, gyda pholisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau bod y plant yn cael gofal da. Mae partneriaethau da wedi'u meithrin rhwng y rhieni a'r gymuned leol, ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion unigol y plant yn cael eu diwallu.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac yn ymrwymedig i roi'r gofal gorau posibl i'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant wedi paratoi datganiad o ddiben cynhwysfawr a oedd yn rhoi disgrifiad clir o'r gwasanaeth a ddarperir, ac yn rhoi'r holl wybodaeth roedd ei hangen ar y rhieni i benderfynu a allai'r gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer pob agwedd berthnasol ar redeg y gwasanaeth. Roedd y rhain yn gynhwysfawr ac yn darparu llawer o wybodaeth i'r rhieni am bob agwedd ar redeg y gwasanaeth. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi. Gwelsom o gofnodion ysgrifenedig fod y gwarchodwr plant wedi gofyn i'r rhieni lenwi ffurflenni cofrestru a chontractau cyn i'w plentyn ddechrau. Roedd y rhieni hefyd wedi llofnodi slipiau caniatâd ar gyfer sawl agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir i'r plant, gan gynnwys ar gyfer ffotograffau, teithiau, rhoi meddyginiaeth, cymorth cyntaf, cael gofal gan y cynorthwywyr ac eli haul. Roedd ffeiliau'r plant hefyd yn cynnwys manylion am eu hoff a chas bethau, a'u trefn ddyddiol arferol.

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus iawn ac yn rhedeg y gwasanaeth yn dda.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant wrthi'n rhoi gweithdrefnau ar waith i adolygu ansawdd ei gwasanaeth.

Cawsom sgwrs am y ffordd roedd hi'n bwriadu cynnal adolygiad o ansawdd y gofal. Dywedodd ei bod yn gofyn am adborth ar lafar gan y rhieni yn rheolaidd, a bod y rhieni hefyd yn gallu rhoi sylwadau yn nyddiadur dyddiol eu plentyn ar-lein, os dymunent wneud hynny. Dywedodd y gwarchodwr plant ei bod hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r cynorthwywyr i gasglu eu safbwyntiau ac er mwyn iddynt gymryd rhan wrth drefnu gweithgareddau a chynllunio ar gyfer gwelliannau. Nid oedd y gwarchodwr plant wedi anfon holiaduron adborth at y rhieni eto nac ychwaith wedi casglu adborth ar lafar gan y plant gan mai dim ond am gyfnod byr roedd y gwasanaeth wedi bod yn weithredol. Dywedodd ei bod yn bwriadu gwneud hyn yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, a gwnaethom sôn wrthi am

dempled yr adroddiad ar ansawdd y gofal sydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru, er mwyn ei helpu i gasglu unrhyw adborth a'i ddefnyddio i gynllunio ar gyfer gwelliannau.

Mae'r gwarchodwr plant yn awyddus i ddefnyddio'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y rhieni, y plant a phartïon eraill i wella ei gwasanaeth.

## 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau'n dda ac yn sicrhau ei bod yn darparu gwasanaeth da.
Roedd yr adnoddau o ansawdd da ac yn briodol i'r plant a oedd yn eu defnyddio. Roedd amrywiaeth o deganau, gemau ac adnoddau ar gael i'r plant, ac roeddent yn gallu eu defnyddio fel y dymunent. Roedd y gwiriadau DBS ar gyfer pob oedolyn a oedd yn byw ar y safle yn gyfredol, yn ogystal â'r rhai ar gyfer pob cynorthwyydd gwarchod plant. Roedd dogfennau wedi'u ffeilio'n briodol ac roedd yn hawdd cael gafael arnynt. Roedd y gwarchodwr plant hefyd yn sicrhau bod ffeiliau staff ar waith ar gyfer pob cynorthwyydd gwarchod plant, a oedd yn dangos bod gwiriadau wedi'u cynnal i sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Yn ogystal, roedd cynlluniau datblygu ar waith i sicrhau bod y gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn gallu mynd i sesiynau hyfforddi a digwyddiadau, a oedd yn eu tro yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am yr arferion gorau cyfredol ac yn gwella eu gwybodaeth.

Mae'r plant yn elwa ar wasanaeth lle caiff adnoddau eu rheoli a chaiff gwiriadau eu cwblhau fel y bo'n briodol.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni, gan sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu'n effeithiol.

Roedd cydberthnasau da rhwng y gwarchodwr plant â'r rhieni. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael llawer o wybodaeth gan y gwarchodwr plant ac roeddent yn hapus iawn â'r gwasanaeth. Roedd gwybodaeth am sut roedd y plant wedi bwyta a'r gweithgareddau maent wedi cymryd rhan ynddynt hefyd yn cael eu nodi ar yr ap arbenigol. Roedd y gwarchodwr plant yn rhannu ffotograffau gyda'r rhieni'n rheolaidd, ac roedd wedi cofrestru gyda'r ICO (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) ac yn sicrhau bod yr holl ffotograffau a gwybodaeth yn cael eu rhannu a'u storio'n ddiogel. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn mynd â'r plant i leoedd o ddiddordeb yn y gymuned, megis grwpiau plant bach, y llyfrgell a'r siopau lleol cyfagos. Cadarnhawyd hyn gan y rhieni y gwnaethom siarad â nhw ac yn y cynlluniau gweithgareddau a welsom. Soniodd plentyn hŷn wrthym hefyd am brosiect roeddent yn ei gyflawni ar hyn o bryd gyda chymydog, a osodwyd iddo gan y gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant cydweithio gyda'r rhieni er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu, gan wella eu llesiant.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom roi gwybod i'r gwarchodwr plant nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliad canlynol. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r materion hyn gan na welsom unrhyw dystiolaeth y tro hwn ei fod yn cael effaith andwyol ar lesiant y plant. Fodd bynnag, rhaid i'r gwarchodwr plant gymryd camau i ymdrin â'r mater hwn:

**Cafwyd gennym nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â *Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010*,** Rheoliad 38:

Mae'n rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y staff a'r plant yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn os bydd tân drwy gynnal ymarferion tân ar gyfnodau addas. Nid oedd hyn yn wir ar adeg yr arolygiad am nad oedd unrhyw ymarferion tân wedi cael eu cynnal eleni, er bod y gwarchodwr plant a chynorthwywyr gwarchod plant yn ymwybodol o'r gweithdrefnau gwagio mewn argyfwng. Mae hyn yn cynyddu'r risg na fydd staff a phlant yn gyfarwydd â'r trefniadau ar gyfer gwagio'r adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y rhain yn digwydd ar adegau addas yn y dyfodol, gan ystyried oedran y plant a phlant newydd sydd wedi dechrau yn y gwasanaeth.

Hefyd, gwnaethom yr argymhellion arfer da canlynol i'r gwarchodwr plant eu hystyried:

- Cael llofnod ar bob cofnod o ddamwain/digwyddiad yn dystiolaeth bod y rhieni wedi cael gwybodaeth mewn perthynas â'r rhain, a'u bod yn fodlon â'r camau a gymerwyd;
- defnyddio papur fel haen untro ychwanegol ar fatiau newid wrth newid cewynnau i leihau'r risg o groeshalogi ymhellach; a
- nodi pryd y caiff polisïau eu hadolygu a/neu eu diweddaru.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 14 Chwefror 2019, rhwng 10:30am a 2:00pm.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a gwneud sylwadau er mwyn casglu tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a oedd yn cael ei roi gan y gwarchodwr plant;
- siarad â'r plant a'r gwarchodwr plant, un cynorthwyydd a dau riant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad, a
- rhoi adborth manwl i'r gwarchodwr plant ar yr hyn a nodwyd gennym a'r materion i fynd i'r afael â nhw.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Shan Mayor** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **20** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 7:00 a.m. a 7:00 p.m, o ddydd Llun i ddydd Gwener drwy'r flwyddyn, ac eithrio gwyliau Nadolig yr ysgol a Gwyliau Banc** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth gael ei arolygu ers ei gofrestru.** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **14 Chwefror 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |